



SWYDD-DDISGRIFIAD AR GYFER YMDDIRIEDOLWR TGP CYMRU

Tâl:	Nid oes unrhyw dâl ariannol ar gael ar gyfer y swydd Ymddiriedolwr, ond gellir hawlio treuliau teithio
Lleoliad:	Caerdydd
Ymrwymiad amser:	4 Cyfarfod bwrdd y flwyddyn a 4 Cyfarfod Is-grwpiau Cyllid, Adnoddau Dynol a Pholisïau y flwyddyn.
Yn atebol i	Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

Diben cyffredinol

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol a chyfeiriad strategol TGP Cymru, gan ddatblygu nodau, amcanion a thargedau'r sefydliad yn unol â'r canllawiau yn y ddogfen lywodraethu a chanllawiau cyfreithiol a rheoleiddio. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael ei gefnogi gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys hyd at 12 o Ymddiriedolwyr.

Gofynion y Swydd

Hanfodol:

- Ymrwymiad i TGP Cymru
- Uniondeb, gweledigaeth strategol a barn gadarn
- Parodrwydd i neilltuo'r amser angenrheidiol i'r rôl
- Sgiliau cyfathrebu da
- Parodrwydd i ddweud eich barn a gwrando ar farn pobl eraill
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau cyfreithiol a rhwymedigaethau ymddiriedolwr
- Gwiriad boddhaol y Bwrdd Datgelu a Gwahardd

Dymunol:

- Dealltwriaeth o 7 egwyddor Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth
- Gwybodaeth am y sector

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Sicrhau bod TGP Cymru yn cydymffurfio â'r amcanion a nodir yn y ei Femorandwm ac Erthyglau (dogfen lywodraethu) ac yn mynd ar eu trywydd.
- Sicrhau bod TGP Cymru yn cydymffurfio â'r gyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill sy'n effeithio ar ei weithrediad.
- Sicrhau bod TGP Cymru yn defnyddio ei adnoddau yn gyfan gwbl er mwyn cyflawni ei amcanion, h.y. nad yw'r elusen yn gwario arian ar weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn ei hamcanion, waeth pa mor fuddiol neu elusennol yw'r gweithgareddau hynny.
- Cyfrannu'n weithredol at rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wrth roi cyfeiriad strategol cadarn i'r sefydliad, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiadau yn erbyn y targedau hynny.
- Goruchwylio gweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol holl wasanaethau TGP Cymru.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol TGP Cymru fel elusen, heddiw ac ar gyfer y dyfodol
- Amddiffyn a rheoli eiddo TGP Cymru a sicrhau bod cronfeydd yr elusen yn cael eu buddsoddi'n briodol.
- Penodi'r Prif Weithredwr a monitro ei berfformiad/pherfformiad.

Dylai Ymddiriedolwr, o fewn eu holl waith:

- Ystyried y sefydliad yn ei gyfanrwydd a'i fuddiolwyr, boed fel aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau neu grwpiau ac adlewyrchu polisiâu a phryderon yr ymddiriedolwyr ar bob un o'i is-bwyllgorau a grwpiau.
- Adlewyrchu gweledigaeth ac egwyddorion, strategaeth a pholisiâu pwysig y sefydliad bob amser.
- Cyfrannu sgiliau, diddordebau a chysylltiadau penodol a chefnogi'r sefydliad mewn gweithgareddau codi arian.
- Bod yn aelod gweithredol o'r Bwrdd o ran arfer ei chyfrifoldebau a'i swyddogaethau a mynychu cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr yn rheolaidd.
- Cynnal perthynas dda gydag uwch staff rheoli.
- Cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a ddarperir er budd yr ymddiriedolwyr.
- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.
- Cyflawni ddyletswyddau ac aseiniadau eraill fel y gall fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd gan gorff yr ymddiriedolwyr.

Iechyd a Diogelwch:

Fel gwirfoddolwr i TGP Cymru mae gennych gyfrifoldeb o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i:

- Gymryd gofal rhesymol drosoch chi eich hun ac eraill yn y gwaith.
- Cydweithredu â TGP Cymru er mwyn sicrhau nad yw deddfau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn cael eu torri.

- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau neu bryderon am iechyd a diogelwch i'r rheolwr yn yr ardal lle rydych yn gweithio.

Cyfle Cyfartal

Mae TGP Cymru wedi ymrwymo i bolisiau ac arferion gwrthwahanïaethol ac mae'n hanfodol bod deiliad y swydd yn barod i wneud cyfraniad cadarnhaol at eu hyrwyddo a'u gweithredu.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cadeirydd a'r Bwrdd am unrhyw wrthdaro buddiannau a allai godi i chi yn ystod eich cyfnod yn y swydd.

Cyfrinachedd

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd barchu rheolau llym ynghylch y wybodaeth a gaiff wrth gyflawni ei (d)dyletswyddau.